# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 06 Tachwedd 2002 i'w hateb ar 20 Tachwedd 2002

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd*

**1. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith Awdurdod Datblygu Cymru yn Ne-ddwyrain Cymru. (OAQ20345)

**2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar y camau y mae'r Cynulliad yn eu cymryd i adennill grantiau a dalwyd i Fineline Cymru yn y Rhyl. (OAQ20335)

**3. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau allforion o Gymru. (OAQ20373) **W**

**4. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y cwmnïau bach a chanolig eu maint sy'n derbyn Cymorth Rhanbarthol Dewisol. (OAQ20362)

**5. Phil Willaims (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod diwydiant aerofod Cymru'n medru manteisio i'r eithaf ar y rheol "juste-retour" sy'n pennu sut y rhennir contractau Asiantaeth Ofod Ewrop. (OAQ20353)

**6. Janice Gregory (Ogwr);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddarparu technoleg band eang mewn ardaloedd lle nad yw'r dechnoleg ar gael ar hyn o bryd. (OAQ20334)

**7. Janice Gregory (Ogwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer adfywio economi Cymoedd y De. (OAQ20333)

**8. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hybu datblygiad economaidd yn Ne Orllewin Cymru. (OAQ20364) **W**

**9. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad i wasgaru ffyniant economaidd i bob rhan o Gymru. (OAQ20355) **W**

**10. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog

wedi'u cael gyda busnesau bach yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. (OAQ20341)

**11. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau band eang yn Islwyn. (OAQ20360)

**12. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth grantiau a chefnogaeth busnes i gwmnïau cynhenid Cymreig. (OAQ20371) **W**

**13. Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth y mae'n ei roi i'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru. (OAQ20344)

**14. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swyddi sydd wedi'u colli yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y chwe mis diwethaf. (OAQ20349)

**15. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr Arian Amcan 1 sydd eisoes wedi'i ddyrannu i raglenni Adfywio Cymunedol o'i gymharu â thargedau neilltuo. (OAQ20381)

## *Gofyn i Weinidog Cyllid y Cynulliad*

**1. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion diweddaraf yr hyn a wnaed i adolygu lleoliadau swyddfeydd. (OAQ20402)

**2. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion diweddaraf y cynlluniau ar gyfer adeiladu Siambr newydd y Cynulliad. (OAQ20397)

**3. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda swyddogion yr heddlu cyn penderfynu ar yr arian sydd wedi'i ddyrannu i'r portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau yn y gyllideb. (OAQ20407)

**4. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian sydd wedi'i ddyrannu i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gyllideb. (OAQ20404)

**5. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau y bydd prosiectau PFI yn fwy agored. (OAQ20413)

**6. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amcangyfrif mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r gost hyd yn hyn o ohirio adeiladu adeilad newydd y Cynulliad. (OAQ20415)

**7. Karen Sinclair (De Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog roi crynodeb o'r newyddion diweddaraf am y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. (OAQ20385)

**8. Janice Gregory (Ogwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid arfaethedig ar gyfer triniaethau ailsefydlu yn dilyn dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, a amlinellwyd yn ei chyllideb ddiweddaraf. (OAQ20417)

**9. Geraint Davies (Rhondda);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch cynyddu grant bloc Cymru er mwyn talu am gost ychwanegol mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Rhondda. (OAQ20400) **TYNNWYD YN ÔL**

**10. David Melding (Canol De Cymru);** Pryd wnaiff y Gweinidog gyhoeddi a ydyw'r cyllidebau Iechyd dangosol ar gyfer 2004-05 a 2005-06 yn mynd i barhau wedi'u rhewi ai peidio. (OAQ20398)

**11. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyhoeddi cost prosiectau PFI y cytunwyd arnynt cyn creu'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ20408)

**12. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi sylwadau ar y berthynas rhwng hyblygrwydd diwedd blwyddyn a lefelau'r cronfeydd wrth-gefn a ddyfynnwyd yn y Gyllideb. (OAQ20394)

**13. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gynyddu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer amaethyddiaeth er mwyn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol. (OAQ20390)

**14. Elin Jones (Ceredigion);** Pa gynrychiolaethau a dderbyniodd y Gweinidog gan y gymuned chwaraeon cyn dyfarnu £3.5 miliwn y flwyddyn i linell cyllideb Cwpan Ryder 2010 yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2003-04 i 2005-06. (OAQ20410)

**15. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwahaniaeth rhwng y cyllid a neilltuwyd ar gyfer y portffolio Datblygu Economaidd yn y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol. (OAQ20401)